Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Cadwyn Gyflenwi Gwynt ar y Môr

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg o’r gadwyn gyflenwi i feithrin dealltwriaeth ac ehangu ein gwybodaeth am gwmnïau sydd naill ai'n weithredol yn y sector ynni gwynt ar y môr neu sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y sector dros y 5 mlynedd nesaf.

Y bwriad yw y bydd yr arolwg yn adeiladu ar ein gwybodaeth bresennol am gwmnïau sy'n weithredol yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Rydym yn edrych i adnabod busnesau yng Nghymru sydd naill ai'n meddu ar yr arbenigedd presennol neu sydd â'r gallu / awydd i ymuno â'r sector yn y dyfodol.

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw ddata personol a ddarperir gennych yng nghyswllt yr arolwg hwn. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

### Pa wybodaeth bersonol fyddwn yn ei chadw?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu a'i chadw yn cynnwys:

- Enw.
- Manylion cyswllt e-bost a ffôn
- Y sefydliad a'ch rôl ynddo
- Data masnachol ynghylch eich gweithrediadau busnes yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

### Am ba reswm yr ydym yn defnyddio eich data personol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data personol i helpu i weithredu ein polisi datblygu economaidd. Gall hyn gynnwys cysylltu â chi i:

- Fynychu gweithdai i randdeiliaid (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir).
- Cyfrannu gwybodaeth i helpu i lywio a dylunio ein polisi datblygu economaidd.
- Darparu eich gwybodaeth gyswllt i ddatblygwyr prosiectau gwynt ar y môr a chwmnïau caffael, sy’n ymgymryd ag ymarferion caffael yn nyfroedd y DU ac Iwerddon.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi eich cyfranogiad gan fod eich barn a'ch profiadau yn bwysig i lywio ein polisi datblygu economaidd.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n **cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth**.

**Â phwy ydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth chi?**

Ar gyfer yr arolwg busnes hwn, rydym yn defnyddio trydydd parti i drefnu ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae ein contractau yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Dim ond at ddibenion casglu data y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio a byddant yn cael eu dileu oddi ar systemau'r trydydd parti pan fydd yr arolwg hwn wedi'i gwblhau.

**Am ba hyd y cedwir eich manylion**

Bydd eich data personol yn cael eu cadw ar systemau TG diogel Llywodraeth Cymru am hyd at 7 mlynedd yn unol â pholisi cadw Llywodraeth Cymru ac ar ôl hynny bydd yn cael eu dinistrio'n ddiogel. Efallai y byddwn yn dileu'r wybodaeth yn gynt os nad yw'n cael ei defnyddio mwyach.

**Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i ofyn am i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

**Cysylltiadau**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect ymchwil hwn, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Helen Donovan

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd,

CF10 3NQ

E-bost: helen.donovan@llyw.cymru

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

**Swyddog Diogelu Data**

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

**E-bost:** DataProtectionOfficer@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg / We welcome correspondence in Welsh.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

**Rhif ffôn:** 0303 123 1113

Gwefan